Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 61 (Cy. 14)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn dwyn i rym ddarpariaethau penodedig o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym adran 1(2) a (3) o'r Ddeddf ar 21 Ionawr 2021. Mae adran 1(2) yn darparu bod rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 25B(3)(c) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. Mae adran 1(3) yn mewnosod cofnod ar gyfer "nurse staffing level" yn y tabl yn adran 207 o Ddeddf 2006 (mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 1 (yn rhannol) | 3 Awst 2016 | 2016/829 (Cy. 208) (C. 59) |
| Adran 1 (yn rhannol) | 6 Ebrill 2017 | 2016/829 (Cy. 208) (C. 59) |
| Adran 1 (yn rhannol) | 6 Ebrill 2018 | 2016/829 (Cy. 208) (C. 59) |

*Gweler* hefyd adran 2(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 21 Mawrth 2016 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 61 (Cy. 14)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2021

*Gwnaed* *20 Ionawr 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2 o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2021.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr “y Ddeddf” yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

**Y diwrnod penodedig i adran 1(2) a (3) o’r Ddeddf ddod i rym**

**2.** Y diwrnod penodedig i adran 1(2) a (3) o’r Ddeddf (lefelau staff nyrsio) ddod i rym yw 21 Ionawr 2021.

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
20 Ionawr 2021

(**1**) 2016 dccc 5.